The Planning Inspectorate
Yr Arolygiaeth Gynllunio

Ymarfer sgrinio trawsffiniol a gynhaliwyd gan yr Arolygiaeth Gynllunio (yr Arolygiaeth) ar ran yr Ysgrifennydd Gwladol at ddibenion Rheoliad 32 Rheoliadau Cynllunio Seilwaith (Asesu Effeithiau Amgylcheddol) 2017 (Rheoliadau AEA 2017)	
Enw'r prosiect:	Prosiect Ynni Gwynt Alltraeth Mona
Cyfeiriad/Lleoliad:	Aráe fferm wynt alltraeth wedi'i lleoli yn nwyrain Môr Iwerddon, 28.2km oddi wrth forlin Ynys Môn; seilwaith trawsyrru alltraeth sy'n ymestyn i'r lanfa ar arfordir gogledd Cymru; a seilwaith trawsyrru ar y tir sy'n ymestyn o'r lanfa i is-orsaf y Grid Cenedlaethol ar y tir ym Modelwyddan.
Cyfeirnod yr Arolygiaeth Gynllunio:	EN010137
Dyddiad(au) y cynhaliwyd yr ymarfer sgrinio:	Ymarfer sgrinio cyntaf – 07 Tachwedd 2022 yn dilyn cais yr Ymgeisydd am farn gwmpasu.

YMARFER SGRINIO TRAWSFFINIOL CYNTAF	
Dogfen(nau) a ddefnyddiwyd ar gyfer sgrinio trawsffiniol:	Adroddiad Cwmpasu Asesu Effeithiau Amgylcheddol Prosiect Ynni Gwynt Mona (Mai 2022) ('yr Adroddiad Cwmpasu')
Meini Prawf Sgrinio:	**Sylwadau'r Arolygiaeth:**
Nodweddion y Datblygiad	Mae'r Datblygiad Arfaethedig ar gyfer fferm wynt alltraeth 1.5GW a seilwaith trawsyrru cysylltiedig. Byddai'r elfennau alltraeth allweddol fel a ganlyn: • hyd at 107 o dyrbinau gwynt; • hyd at bedwar platfform is-orsaf alltraeth; • un is-orsaf gyfnerthu alltraeth (os defnyddir system drawsyrru Cerrynt Eiledol Foltedd Uchel (HVAC)); • ceblau rhyng-aráe; • ceblau rhyng-gysylltydd (rhwng platfformau is-orsaf alltraeth); a • hyd at bedwar cebl allforio alltraeth i'r lanfa (cyfanswm hyd mwyaf o 360km). Nid yw'r mathau o sylfeini ar gyfer y strwythurau alltraeth wedi'u penderfynu eto, ond mae opsiynau posibl yn cynnwys seilbyst unigol, sylfeini siaced ar seiliau pin neu sylfeini siaced bwced sugno. Byddai angen gosod deunyddiau i atal erydu ar y sylfeini. Byddai'r ceblau allforio alltraeth yn cael eu gosod trwy ddulliau fel aredig, torri ffosydd neu ffrydio. Byddent yn cael eu claddu

	lle bynnag y bo'n bosibl a'u diogelu gan ddeunyddiau diogelu ceblau pan nad oes modd eu claddu. Byddai'r ceblau'n cael eu gosod trwy'r ardal rynglanw wrth y lanfa gan ddefnyddio dulliau di-ffos neu dorri ffosydd agored. Byddai seilwaith ar y tir yn cynnwys: • hyd at 12 o geblau allforio ar y tir wedi'u claddu mewn hyd at bedair ffos ar wahân rhwng y lanfa a'r is-orsaf ar y tir; • is-orsaf ar y tir; a • hyd at 12 o geblau allforio cysylltu â'r grid wedi'u claddu mewn hyd at bedair ffos ar wahân rhwng yr is-orsaf ar y tir ac is-orsaf y Grid Cenedlaethol. Byddai'n cymryd hyd at bedair blynedd i osod elfennau alltraeth ac ar y tir y Datblygiad Arfaethedig. Disgwylir i'r Datblygiad Arfaethedig weithredu am hyd at 35 mlynedd.
Lleoliad y Datblygiad (gan gynnwys defnydd presennol) ac ardal Ddaearyddol	**Alltraeth** Byddai'r elfennau alltraeth wedi'u lleoli yn nwyrain Môr Iwerddon. Byddai'r arae fferm wynt wedi'i lleoli 28.2km oddi wrth forlin Ynys Môn. Yr Arwynebedd Arae Posibl yw 449.97km^2. Byddai'r seilwaith trawsyrru alltraeth yn ymestyn i gyfeiriad de-ddwyreiniol i'r lanfa ar arfordir gogledd Cymru (rhwng Bae Colwyn a'r Rhyl, yr union leoliad i'w benderfynu). Mae'r Adroddiad Cwmpasu yn amlygu nifer o ddefnyddiau presennol o fewn, a gerllaw, elfennau alltraeth y Datblygiad Arfaethedig, gan gynnwys: • ffermydd gwynt alltraeth presennol ac arfaethedig; • llwybrau fferïau masnachol; • pysgota masnachol; • gweithgareddau hamdden (hwylio, defnyddio badau modur a physgota hamdden); a • seilwaith gan gynnwys ceblau, piblinellau, platfformau olew a nwy, strwythurau a ffynhonnau tanfor, ac ardaloedd echdynnu ac agregau. **Ar y tir** Byddai'r asedau trawsyrru ar y tir wedi'u lleoli o fewn ardaloedd awdurdod lleol Cyngor Sir Ddinbych a Chyngor Bwrdeistref Sirol Conwy. Byddai'r seilwaith trawsyrru ar y tir yn ymestyn o'r lanfa (yr union leoliad i'w benderfynu) i is-orsaf ar y tir bresennol y Grid Cenedlaethol ym Modelwyddan. Mae rhan fawr o'r ardal gwmpasu ar y tir mewn lleoliad gwledig ac amaethyddol. Fodd bynnag, mae sawl anheddiad presennol, gan gynnwys trefi (neu bentrefi) Abergele, y Rhyl, Llanddulas, Rhyd-y-Foel, Bodelwyddan a Rhuddlan. Mae'r seilwaith presennol yn cynnwys sawl prif ffordd, fel yr A55, yr A547, yr A525, yr A548 a'r A5151. Mae llinell reilffordd yn mynd o'r dwyrain i'r gorllewin yn fras ar hyd y morlin hefyd a cheir nifer o Hawliau Tramwy Cyhoeddus, gan gynnwys Llwybr

	Arfordir Cymru a Llwybr Arfordir Gogledd Cymru. Mae sawl prif afon yn yr ardal hefyd, gan gynnwys Afon Dulas, Afon Gele, Afon Elwy ac Afon Clwyd. **Pellter i Wladwriaethau'r Ardal Economaidd Ewropeaidd (AEE)** Mae Tabl 1.1 Atodiad A yr Adroddiad Cwmpasu yn datgan mai'r Wladwriaeth AEE agosaf yw Iwerddon, sydd wedi'i lleoli 80.2km o ardal yr arâe a 71.6km o ardal chwilio cwmpasu'r seilwaith trawsyrru alltraeth.
Pwysigrwydd Amgylcheddol	**Alltraeth** *Adareg alltraeth* • Mae adar môr cyffredin y gwyddys eu bod yn bresennol o fewn neu o amgylch ardal y prosiect yn cynnwys (ond nid yn gyfyngedig i) gwylanod y graig, adar drycin Manaw, huganod y gogledd, sgiwennod y gogledd, gwylanod, môr-wenoliaid a charfilod. • Mae'r Adroddiad Cwmpasu yn nodi'r potensial ar gyfer cysylltedd rhwng yr ardal alltraeth a safleoedd Ewropeaidd sydd â nodweddion cymwys adaregol. Mae'n cadarnhau y bydd y safleoedd perthnasol yn cael eu nodi yn yr Adroddiad Sgrinio Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd (HRA) (nad yw wedi'i gynhyrchu eto). *Ecoleg islanw a rhynglanw fenthig* • Mae Ardal Cadwraeth Arbennig (ACA) Y Fenai a Bae Conwy wedi'i lleoli o fewn yr ardal gwmpasu trawsyrru alltraeth ac mae wedi'i dynodi ar gyfer cynefinoedd morol gan gynnwys banciau tywod, fflatiau llaid a riffau. • Mae ACA a safle Ramsar Aber Dyfrdwy wedi'i lleoli 6.6km o'r ardal gwmpasu trawsyrru alltraeth ac mae wedi'i dynodi ar gyfer cynefinoedd morol gan gynnwys fflatiau llaid, Salicornia a phlanhigion unflwydd eraill ar laid a morfeydd heli Iwerydd. *Ecoleg pysgod a physgod cregyn* • Mae nifer o rywogaethau pysgod yn bresennol o fewn neu o amgylch yr ardal gwmpasu alltraeth, gan gynnwys lledod Ewropeaidd, lledod y llaid, lledod lleiaf, lledod chwithig, gwyniaid môr, morgwn lleiaf, penfreision, draenogod môr Ewropeaidd, bwganod dŵr, chwyrnwyr llwyd a chwyrnwyr coch. Mae saith rhywogaeth elasmobranciad wedi cael eu cofnodi. • Mae pysgod cregyn sy'n bresennol yn cynnwys cregyn y brenin a chregyn y frenhines. • Gwyddys bod heulgwn yn mudo trwy Fôr Iwerddon. • Mae pysgod mudol a allai fod yn bresennol yn yr ardal astudio yn cynnwys brithyllod y môr, llyswennod Ewropeaidd, llysywod pendoll yr afon, eogiaid, llysywod pendoll y môr, gwangod a herlod. Mae'r rhywogaethau hyn hefyd yn nodweddion cymwys sawl safle dynodedig, gan

	gynnwys ACA Aber Dyfrdwy, ACA Y Fenai a Bae Colwyn ac ACA Afon Dyfrdwy a Llyn y Bala. • Mae nifer o ardaloedd silio a magu yn bresennol o fewn ac o amgylch yr ardal chwilio gwmpasu, ac mae'r rhai hynny ar gyfer penwaig – rhywogaeth bysgod ysglyfaeth belagig sy'n bwysig yn fasnachol ac yn ecolegol – yn gorgyffwrdd â dwyrain yr ardal gwmpasu. *Mamaliaid môr* • Mae llamhidyddion, dolffiniaid llwyd, dolffiniaid trwyn potel, morloi harbwr a morloi llwyd i gyd wedi cael eu hadnabod o fewn neu o amgylch yr ardal chwilio gwmpasu. Fe allai morfilod minke, dolffiniaid pigwyn a dolffiniaid pig byr fod yn bresennol mewn niferoedd bach hefyd. • Mae'r Adroddiad Cwmpasu yn amlygu'r potensial ar gyfer cysylltedd rhwng yr ardal alltraeth â'r safleoedd Ewropeaidd canlynol sydd â nodweddion cymwys mamaliaid môr: - ACA Gogledd Môn Forol; - ACA Pen Llŷn a'r Sarnau; - ACA Gorllewin Cymru Forol; - ACA Sianel y Gogledd; - ACA Strangford Lough; - ACA Bae Ceredigion; - ACA Murlough; - ACA Rockabill i Ynys Dalkey; - ACA Ynys Lambay; - ACA Afon Salney; ac - ACA Sir Benfro Forol. *Pysgodfeydd masnachol* • Mae gweithgarwch pysgota masnachol, gyda llongau o'r Deyrnas Unedig, Ynys Manaw, Gweriniaeth Iwerddon a Gwlad Belg, yn bresennol o fewn ac o amgylch yr ardal chwilio gwmpasu. *Morgludiant a mordwyaeth* • Mae llwybr llongau masnachol yn mynd o Lerpwl i ogledd Môr Iwerddon ac yn croestorri â'r ardal chwilio gwmpasu. • Mae llwybrau fferïau masnachol yn mynd trwy neu gerllaw ardal y prosiect (sef Lerpwl i Belfast, Heysham i Ddulyn, Lerpwl i Ddulyn, Lerpwl i Douglas a Heysham i Warrenpoint). • Mae llongau teithwyr, gan gynnwys llongau mordeithio, yn defnyddio'r ardal hefyd. *Archaeoleg forol* • Mae ardal y prosiect yn cynnwys gorlifdiroedd, dyffrynnoedd twnnel rhewlifol a phalaeodirluniau'r Morlin Holosen. • Mae dau safle archaeolegol morol dynodedig o fewn ardal y prosiect – Llongddrylliad Hanesyddol Resurgam a llongddrylliad milwrol bad modur torpido MTB 539.

	• Mae nifer o asedau morol heb eu dynodi, gan gynnwys safleoedd llongddrylliad hysbys. *Defnyddwyr eraill y môr* • Mae'r ardal chwilio gwmpasu trawsyrru yn gorgyffwrdd â ffermydd gwynt alltraeth Awel y Môr, Gwynt y Môr, Gwastadeddau'r Rhyl, Gogledd Hoyle ac Estyniad Burbo Bank. • Mae nifer o geblau, piblinellau, platfformau olew a nwy, strwythurau a ffynhonnau tanfor, ac ardaloedd echdynnu ac agregau yn bresennol o fewn yr ardal chwilio gwmpasu. • Trwydded arfarnu i archwilio'r defnydd o feysydd alltraeth ym Mae Lerpwl fel storfa barhaol ar gyfer carbon deuocsid (CO_2) oddi ar arfordir gogledd Cymru; fodd bynnag, nid yw'r union leoliad a'r gorgyffyrddiad posibl ag ardal y prosiect yn hysbys ar yr adeg hon. **Ar y tir** Mae nifer o safleoedd cadwraeth natur statudol sydd wedi'u dynodi'n lleol, yn genedlaethol ac yn rhyngwladol o fewn yr ardal chwilio gwmpasu, gan gynnwys Ardal Gwarchodaeth Arbennig Bae Lerpwl.
Effeithiau posibl a Chludwyr	**Alltraeth** *Adareg alltraeth* • Gwrthdaro â thyrbinau (marwolaeth uniongyrchol); effeithiau rhwystr rhwng safleoedd chwilota am fwyd a bridio, neu effeithiau ar fudo; colli/aflonyddu ar gynefin dros dro ac yn barhaol. • Aflonyddu ar rywogaethau ysglyfaeth (pysgod) o ardaloedd bwydo pwysig ar gyfer adar, neu newidiadau i'r ysglyfaeth sydd ar gael o ganlyniad i newidiadau i brosesau ffisegol a chynefin yn sgil presenoldeb seilwaith gweithredol. *Ecoleg islanw a rhynglanw fenthig* • Colli cynefin dros dro a thymor hir a chytrefu neu ddileu swbstradau caled. *Ecoleg pysgod a physgod cregyn* • Effeithiau uniongyrchol o ganlyniad i sŵn tanddwr o weithrediadau gosod seilbyst. • Colli cynefin pysgod a physgod cregyn neu aflonyddu ar gynefin o ganlyniad i fwy o grynodiadau gwaddodion crog a dyddodi gwaddodion cysylltiedig yn sgil gosod a datgomisiynu sylfeini a cheblau. • Colli neu aflonyddu ar gynefinoedd silio a magu pysgod ym Môr Iwerddon. *Mamaliaid môr* • Sŵn tanddwr, yn enwedig yn sgil gosod seilbyst a chlirio ordnans heb ffrwydro cyn adeiladu. • Effeithiau anuniongyrchol yn sgil newidiadau i argaeledd ysglyfaeth o ganlyniad i e.e. colli cynefin, sŵn tanddwr,

	mwy o grynodiadau gwaddodion crog a dyddodi gwaddodion cysylltiedig, ac effeithiau eraill a gynhwyswyd ar gyfer derbynyddion pysgod a physgod cregyn. • Ystyrir bod y cam gweithredu a chynnal a chadw yn llai tebygol o arwain at effeithiau arwyddocaol. *Pysgodfeydd masnachol* • Colli meysydd pysgota yn uniongyrchol, neu fynediad cyfyngedig iddynt, a'r posibilrwydd o ddadleoli gweithgarwch pysgota i ardaloedd eraill. • Effeithiau anuniongyrchol yn sgil effeithiau ar adnoddau pysgod a physgod cregyn sy'n bwysig yn fasnachol. *Morgludiant a mordwyaeth* • Gwyriadau i lwybrau masnachol; mwy o wrthdrawiadau rhwng llongau; perygl taro yn erbyn strwythurau disymud y prosiect; mwy o berygl y gallai angorau ac offer gael eu dal; llai o gliriad o dan y cilbren; llai o allu i ymateb i argyfwng; ac ymyrryd ag offer mordwyo, cyfathrebu a phennu lleoliad morol. *Archaeoleg forol* • Difrod uniongyrchol i dderbynyddion archaeolegol. • Effeithiau anuniongyrchol yn sgil dyddodi ac aflonyddu ar waddodion a newidiadau i arferion cludo gwaddodion. *Defnyddwyr eraill y môr* • Dadleoli gweithgareddau hwylio a badau modur rhwng y Deyrnas Unedig ac Iwerddon ac effeithiau posibl ar geblau presennol rhwng y Deyrnas Unedig, Iwerddon (ceblau ESAT2, Havingsten 1.1 a Rockabill) a'r Unol Daleithiau (cebl Segment A Hibernia Atlantic). **Ar y tir** Ni nodwyd unrhyw effeithiau trawsffiniol posibl yn yr Adroddiad Cwmpasu.
Hyd a lled	**Alltraeth** *Adareg alltraeth* • Mae potensial ar gyfer effeithiau trawsffiniol ar dderbynyddion adaregol o ganlyniad i gynefinoedd chwilota am fwyd a mudol eang rhywogaethau adar nodweddiadol ym Môr Iwerddon. • Nid yw safleoedd Ewropeaidd y mae adar yn un o'u nodweddion cymhwyso ac y mae eu cynefin chwilota am fwyd yn agos i'r Datblygiad Arfaethedig wedi cael eu hamlygu ar yr adeg hon, ond byddant yn cael eu hasesu gan yr Ymgeisydd yn yr Adroddiad HRA. Mae'n debygol y bydd hyd a lled gofodol effeithiau yn amrywio yn dibynnu ar y rhywogaeth. *Ecoleg islanw a rhynglanw fenthig*

	• Mae hyd a lled unrhyw effeithiau a ragwelir yn debygol o fod yn gyfyngedig i ôl troed y Datblygiad Arfaethedig. • Ni ddisgwylir effeithiau trawsffiniol ar y grŵp hwn o dderbynyddion yn yr Adroddiad Cwmpasu ac nid ydynt yn cael eu hystyried ymhellach yn y ddogfen hon. *Ecoleg pysgod a physgod cregyn* • Nid yw hyd a lled yr effeithiau a fydd yn digwydd, yn arbennig o ganlyniad i sŵn tanddwr yn sgil gosod seilbyst, wedi cael ei bennu eto a bydd yn cael ei asesu ymhellach gan yr Ymgeisydd. • Fodd bynnag, mae'r Adroddiad Cwmpasu yn cydnabod y gallai fod effaith uniongyrchol neu anuniongyrchol ar rywogaethau pysgod mudol Atodiad II sydd wedi'u rhestru fel nodweddion safleoedd Ewropeaidd mewn gwladwriaethau eraill, neu rywogaethau sydd o bwysigrwydd masnachol i fflydiau pysgota Gwladwriaethau'r AEE. *Mamaliaid môr* • Nid yw hyd a lled effeithiau, yn enwedig o sŵn tanddwr yn sgil gosod seilbyst a chlirio ordnans heb ffrwydro, wedi cael ei bennu eto a bydd yn cael ei asesu ymhellach gan yr Ymgeisydd. • Fodd bynnag, mae'r Adroddiad Cwmpasu yn cydnabod y potensial ar gyfer effeithiau trawsffiniol ar famaliaid môr o ganlyniad i natur deithiol rhywogaethau mamaliaid môr ac agosrwydd y Datblygiad Arfaethedig i ffin Iwerddon. *Pysgodfeydd masnachol* • Nid yw hyd a lled yr effeithiau wedi cael ei bennu eto. • Fodd bynnag, mae'r Adroddiad Cwmpasu yn cydnabod bod potensial ar gyfer effeithiau trawsffiniol ar bysgodfeydd masnachol o ganlyniad i natur deithiol iawn rhywogaethau pysgod masnachol a fflydiau pysgota. *Morgludiant a mordwyaeth* • Mae potensial ar gyfer effeithiau trawsffiniol ar lwybrau morgludiant sy'n mynd i/o wladwriaethau'r AEE, gan gynnwys Iwerddon. *Archaeoleg forol* • Mae'n debygol y bydd hyd a lled unrhyw effeithiau a ragfynegir yn gyfyngedig i ôl troed y Datblygiad Arfaethedig. • Mae'r Adroddiad Cwmpasu yn dod i'r casgliad nad oes llwybr ar gyfer effeithiau trawsffiniol ar y grŵp hwn o dderbynyddion ac nid ydynt yn cael eu hystyried ymhellach yn y ddogfen hon. *Defnyddwyr eraill y môr* • Mae hyd a lled unrhyw effeithiau posibl ar weithgareddau hamdden neu geblau presennol yn debygol o fod yn lleol a

	thymor byr, ac mae'r olaf yn debygol o fod yn ddarostyngedig i gytundebau croesi ceblau safonol. • Nid yw'r Adroddiad Cwmpasu yn disgwyl effeithiau trawsffiniol ar y grŵp hwn o dderbynyddion ac felly nid ydynt yn cael eu hystyried ymhellach yn y ddogfen hon. **Ar y tir** Mae'r Adroddiad Cwmpasu yn dod i'r casgliad y byddai effeithiau ar y tir yn gyfyngedig i ardal leol o fewn ac o amgylch ôl troed elfennau'r prosiect ar y tir. Ar yr adeg hon, o ystyried y wybodaeth sydd ar gael, mae'r Arolygiaeth o'r farn bod effeithiau trawsffiniol arwyddocaol o weithgareddau ar y tir sy'n gysylltiedig â'r Datblygiad Arfaethedig yn annhebygol ar gyfer mwyafrif y grwpiau derbynyddion. Mae'r Adroddiad Cwmpasu yn datgan nad yw'n ymarferol y byddai'r gwaith ar y tir yn tarfu ar adar mudol sy'n uniongyrchol gysylltiedig â safleoedd Ewropeaidd mewn Gwladwriaethau'r AEE nac yn achosi iddynt ddioddef yn sgil colli cyfleoedd chwilota am fwyd neu orffwys. Nid yw'r Arolygiaeth o'r farn bod digon o dystiolaeth i ddod i'r casgliad hwn ar hyn o bryd. Fodd bynnag, nid yw effeithiau trawsffiniol posibl o'r gwaith ar y tir yn cael eu hystyried ymhellach yn y ddogfen hon o ystyried y diffyg gwybodaeth sydd ar gael ar hyn o bryd.
Maint	Nid yw maint effeithiau (gan ystyried hyd a lled gofodol, parhad, amlder a gwrthdroadwyedd yr effaith) wedi cael ei werthuso ar yr adeg hon a bydd yn cael ei asesu ymhellach.
Tebygolrwydd	**Alltraeth** *Adareg alltraeth* • Mae'n debygol y bydd effeithiau ar dderbynyddion adaregol yn ystod y cam gweithredu a chynnal a chadw, yn enwedig o ganlyniad i aflonyddu a dadleoli a pherygl gwrthdaro. *Ecoleg pysgod a physgod cregyn* • Mae tebygolrwydd uchel o effeithiau yn ystod adeiladu, yn enwedig o ganlyniad i sŵn tanddwr yn sgil gosod seilbyst. *Mamaliaid môr* • Mae tebygolrwydd uchel o effeithiau ar famaliaid môr yn ystod adeiladu, yn enwedig o ganlyniad i sŵn tanddwr yn sgil gosod seilbyst a chlirio ordnans heb ffrwydro. *Pysgodfeydd masnachol a Morgludiant a mordwyaeth* • Mae tebygolrwydd uchel o effeithiau yn ystod y cam gweithredu a chynnal a chadw, yn enwedig o ganlyniad i bresenoldeb y seilwaith alltraeth sy'n gysylltiedig â'r Datblygiad Arfaethedig.
Parhad	**Alltraeth** *Adareg alltraeth*

	• Mae'r effeithiau yn ystod y cam gweithredu a chynnal a chadw yn debygol o fod yn rhai tymor hir. *Ecoleg pysgod a physgod cregyn* • Ystyrir bod mwyafrif yr effeithiau yn ystod adeiladu yn debygol o fod yn rhai tymor byr a dros dro. • Mae'r effeithiau sy'n gysylltiedig â cholli cynefin yn effeithiau tymor hwy. *Mamaliaid môr* • Ystyrir bod mwyafrif yr effeithiau sy'n gysylltiedig â'r cam adeiladu yn debygol o fod yn rhai tymor byr a dros dro. *Pysgodfeydd masnachol a Morgludiant a mordwyaeth* • Gallai'r effeithiau fod yn rhai tymor hir.
Amlder	Nid yw amlder effeithiau trawsffiniol posibl wedi cael ei werthuso'n llawn ar yr adeg hon. Fodd bynnag, mae'r Adroddiad Cwmpasu yn datgan bod effeithiau ar adareg alltraeth yn ystod y cam gweithredu a chynnal a chadw yn debygol o fod yn barhaus.
Gwrthdroadwyedd	Nid yw gwrthdroadwyedd effeithiau trawsffiniol posibl wedi cael ei werthuso'n llawn ar yr adeg hon. Fodd bynnag, mae'r Adroddiad Cwmpasu yn datgan y canlynol: **Alltraeth** *Adareg alltraeth* • Mae'n debygol y bydd aflonyddu a dadleoli a pherygl gwrthdrawiad yn wrthdroadwy ar ôl i'r Datblygiad Arfaethedig gael ei ddatgomisiynu. *Ecoleg pysgod a physgod cregyn* • Gallai'r effeithiau sy'n gysylltiedig â cholli cynefin tymor hir fod yn wrthdroadwy yn dibynnu ar y strategaeth ddatgomisiynu. *Pysgodfeydd masnachol a Morgludiant a mordwyaeth* • Mae'n debygol y gallai rhywfaint o weithgarwch pysgota ailgychwyn ar ôl i'r gwaith adeiladu gael ei gwblhau, yn dibynnu ar ddyluniad terfynol y seilwaith, ac y byddai unrhyw effeithiau'n wrthdroadwy ar ôl datgomisiynu. • Disgwylir y byddai'r holl strwythurau uwchben gwely'r môr yn cael eu symud ymaith yn llwyr yn ystod datgomisiynu, felly byddai'r effeithiau ar forgludiant a mordwyaeth yn wrthdroadwy.
Effeithiau cronnol	**Alltraeth** Mae'r Adroddiad Cwmpasu yn datgan y bydd datblygiadau mawr arfaethedig eraill yn yr ardal yn cael eu hystyried yn yr asesiad o effeithiau cronnol, yn unol â Nodyn Cyngor Dau ar Bymtheg yr Arolygiaeth Gynllunio: Asesu Effeithiau Cronnol mewn Perthynas â Phrosiectau Seilwaith o Arwyddocâd Cenedlaethol.

	Ar y tir Mae cynlluniau neu brosiectau ar y tir a allai gael eu hystyried yn yr asesiad o effeithiau cronnol yn cynnwys: • seilwaith arall ar gyfer cynhyrchu ynni; • datblygiadau adeiladu/tai; • gosod neu uwchraddio ffyrdd; • gosod neu uwchraddio ceblau a phiblinellau; • gwaith i ddiogelu'r arfordir; a • gwaith galluogi'r Grid Cenedlaethol. Nid yw asesiad o effeithiau cronnol yr Ymgeisydd wedi cael ei gynnal eto, felly nid yw'r Ymgeisydd wedi amlygu unrhyw effeithiau cronnol trawsffiniol arwyddocaol tebygol ar yr adeg hon.

Ymarfer sgrinio trawsffiniol a gynhaliwyd gan yr Arolygiaeth ar ran yr Ysgrifennydd Gwladol

O dan Reoliad 32 Rheoliadau Cynllunio Seilwaith (Asesu Effeithiau Amgylcheddol) 2017 (Rheoliadau AEA 2017) ac ar sail y wybodaeth gyfredol sydd ar gael gan yr Ymgeisydd, mae'r Arolygiaeth o'r farn bod y Datblygiad Arfaethedig **yn debygol** o gael effaith arwyddocaol ar yr amgylchedd mewn Gwladwriaeth AEE.

Wrth ddod i'r farn hon, mae'r Arolygiaeth wedi defnyddio'r dull rhagofalus (fel yr esbonnir yn ei Nodyn Cyngor Deuddeg: Effeithiau Trawsffiniol), ac wedi ystyried y wybodaeth a gyflenwyd gan yr Ymgeisydd ar hyn o bryd.

Cam gweithredu:

Mae angen hysbysu am faterion trawsffiniol o dan Reoliad 32 Rheoliadau AEA 2017.

Gwladwriaethau sydd i'w hysbysu:

- Gweriniaeth Iwerddon – o ganlyniad i effeithiau posibl ar famaliaid môr, pysgodfeydd masnachol, morgludiant a mordwyaeth a defnyddwyr eraill y môr (gweithredwyr ceblau a defnyddwyr hamdden).
- Gwlad Belg – o ganlyniad i effeithiau posibl ar bysgodfeydd masnachol.

Dyddiad 07 Tachwedd 2022

Sylwer: Mae dyletswydd yr Ysgrifennydd Gwladol o dan Reoliad 32 Rheoliadau AEA 2017 yn parhau drwy gydol proses y cais.

Sylwer:

Mae ymarfer sgrinio'r Arolygiaeth o faterion trawsffiniol wedi'i seilio ar yr ystyriaethau perthnasol a nodir yn yr Atodiad i'w Nodyn Cyngor Deuddeg, sydd ar gael ar ein gwefan yn https://infrastructure.planninginspectorate.gov.uk/cy/legislation-and-advice/advice-notes/

The Planning Inspectorate
Yr Arolygiaeth Gynllunio

Transboundary screening undertaken by the Planning Inspectorate (the Inspectorate) on behalf of the Secretary of State (SoS) for the purposes of Regulation 32 of The Infrastructure Planning (Environmental Impact Assessment) Regulations 2017 (the 2017 EIA Regulations)	
Project name:	Mona Offshore Wind Project
Address/Location:	An offshore wind farm array located in the east Irish Sea, 28.2km from the Anglesey coastline; offshore transmission infrastructure extending to landfall on the north coast of Wales; and an onshore transmission infrastructure extending from landfall to the onshore National Grid substation at Bodelwyddan.
Planning Inspectorate Ref:	EN010137
Date(s) screening undertaken:	First screening – 07 November 2022 following the Applicant's request for a scoping opinion.

FIRST TRANSBOUNDARY SCREENING	
Document(s) used for transboundary Screening:	Mona Offshore Wind Project Environmental Impact Assessment Scoping Report (May 2022) ('the Scoping Report')
Screening Criteria:	**The Inspectorate's Comments:**
Characteristics of the Development	The Proposed Development is for a 1.5GW offshore wind farm and associated transmission infrastructure. The key offshore components would be the following: • up to 107 wind turbines; • up to four offshore substations platforms; • one offshore booster substation (if a High Voltage Alternating Current (HVAC) transmission system is employed); • inter-array cables; • inter-connector cables (between offshore substation platforms); and • up to four offshore export cables to the landfall (maximum total length of 360km). The types of foundations for the offshore structures are yet to be determined but potential options include monopile, pin-pile jacket or suction bucket jacket foundations. Scour protection would be required at the foundations. The offshore export cables would be installed by methods such as ploughing, trenching or jetting. They would be buried

	wherever possible and protected with cable protection where burial is not achievable. The cables would be installed through the intertidal zone at the landfall using either trenchless methods or open cut trenching. Onshore infrastructure would include: • up to 12 onshore export cables buried in up to four separate trenches between the landfall and onshore substation; • onshore substation; and • up to 12 grid connection export cable buried in up to four separate trenches between the onshore substation and the National Grid substation. Installation of the offshore and onshore elements of the Proposed Development would take up to four years. The Proposed Development is expected to have an operational lifetime of up to 35 years.
Location of Development (including existing use) and Geographical area	**Offshore** The offshore components would be located in the east Irish Sea. The wind farm array would be located 28.2km from the Anglesey coastline. The Potential Array Area is 449.97km^2. The offshore transmission infrastructure would extend in a south-easterly direction to landfall on the north coast of Wales (between Colwyn Bay and Rhyl, exact location to be determined). The Scoping Report identifies a number of existing uses within, and adjacent to, the offshore elements of the Proposed Development, including: • existing and planned offshore windfarms; • commercial ferry routes; • commercial fishing; • recreational activities (sailing, motor cruising and recreational fishing); and • infrastructure including cables, pipelines, oil and gas platforms, subsea structures and wells, and extraction and aggregate areas. **Onshore** The onshore transmission assets would be located within the local authority areas of Denbighshire County Council and Conwy County Borough Council. Onshore transmission infrastructure would extend from the landfall (precise location to be determined) to the existing onshore National Grid substation at Bodelwyddan. A large proportion of the onshore scoping area is located within a rural and agricultural setting. However there are several existing settlements, including the towns (or villages) of Abergele, Rhyl, Llanddulas, Rhyd-y-Foel, Bodelwyddan and Rhuddlan. Existing infrastructure includes several major roads,

	such as the A55, A547, A525, A548 and A5151. There is also a railway line broadly routing east to west along the coastline and numerous Public Rights of Way, including the Wales Coast Path and the North Wales Coast Path. There are also several main rivers within the area including the River Dulas, River Gele, River Elwy and River Clwyd. **Distance to EEA States** Table 1.1 of Annex A of the Scoping Report states that the nearest EEA State is Ireland, which is located 80.2km from the array area and 71.6km from the offshore transmission infrastructure scoping search area.
Environmental Importance	**Offshore** *Offshore ornithology* • Common seabirds known to be present in or around the project area, include (but are not limited to) petrel, Manx shearwater, northern gannet, skuas, gulls, terns and auks. • The Scoping Report identifies the potential for connectivity between the offshore area and European sites with ornithological qualifying features. It confirms that the relevant sites will be identified in the Habitats Regulations Assessment (HRA) Screening Report (yet to be produced). *Benthic subtidal and intertidal ecology* • Y Fenai a Bae Conwy/Menai Strait and Conwy Bay Special Conservation Area (SAC) is located within the offshore transmission scoping area and is designated for marine habitats including sandbanks, mudflats and reefs. • Aber Dyfrdwy/ Dee Estuary SAC and Ramsar is located 6.6km away from the offshore transmission scoping area and is designated for marine habitats including mudflats, Salicornia and other annuals colonising mud and Atlantic salt meadows. *Fish and shellfish ecology* • A number of fish species are present in or around the offshore scoping area including European plaice, dab, solenette, Dover sole, whiting, lesser spotted dogfish, cod, European seabass, dragonet, grey gurnard and red gurnard. Seven elasmobranch species have been recorded. • Shellfish present include king and queen scallop. • Basking shark are known to migrate through the Irish Sea. • Migratory fish which may be present in the study area include sea trout, European eel, river lamprey, Atlantic salmon, sea lamprey, twaite shad and allis shad. These species are also qualifying features of several designated sites including the Aber Dyfrdwy/Dee Estuary SAC, the Y Fenai a Bae Conwy and the Afon Dyfrdwy a Llyn/River Dee and Bala Lake SAC. • Multiple spawning and nursery grounds are present within and around the scoping search area, with those for herring – a commercially and ecologically important pelagic fish

	prey species - overlapping the east of the offshore transmission scoping area. *Marine mammals* • Harbour porpoise, Risso's dolphin, bottlenose dolphin, harbour seal and grey seal have all been identified in or around the scoping search area. Minke whale, white beaked dolphin and short beaked dolphin may also be present in low numbers. • The Scoping Report identifies the potential for connectivity between the offshore area and the following European sites with marine mammal qualifying features: - North Anglesey Marine/Gogledd Môn Forol SAC; - Pen Llyn a'r Sarnau/Llŷn Peninsula and the Sarnau SAC; - West Wales Marine/Gorllewin Cymru Forol SAC; - North Channel SAC; - Strangford Lough SAC; - Cardigan Bay/Bay Ceredigion SAC; - Murlough SAC; - Rockabill to Dalkey Island SAC; - Lambay Island SAC; - Salney River SAC; and - Pembrokeshire Marine/Sir Benfro Forol SAC. *Commercial fisheries* • Commercial fishing activity, with vessels from the UK, Isle of Man, Republic of Ireland and Belgium, is present within and around the scoping search area. *Shipping and navigation* • A commercial vessel route transits from Liverpool to the northern Irish Sea and intersects the scoping search area. • Commercial ferry routes pass through, or adjacent to, the project area (namely Liverpool to Belfast, Heysham to Dublin, Liverpool to Dublin, Liverpool to Douglas and Heysham to Warrenpoint). • Passenger vessels, including cruise ships, also utilise the area. *Marine archaeology* • The project area comprises flood plains, glacial tunnel valleys and the Holocene Coastline palaeolandscapes. • There are two designated maritime archaeological sites within the project area – the Resurgam Historic Wreck and Motor torpedo boat MTB 539 military wreck. • There are numerous non-designated maritime assets including known wreck sites. *Other sea users* • The transmission scoping search area overlaps with Awel y Môr, Gwynt y Môr, Rhyl Flats, North Hoyle and Burbo Bank Extension offshore windfarms.

	• A number of cables, pipelines, oil and gas platforms, subsea structures and wells, and extraction and aggregate areas are present within the scoping search area. • An appraisal licence to explore the use of offshore fields in Liverpool Bay as a permanent store for carbon dioxide (CO_2) off the north coast of Wales; however the exact location and potential overlap with the project area is not known at this point. **Onshore** There are a number of local, national and internationally designated statutory nature conservation sites within the scoping search area, including Liverpool Bay SPA.
Potential impacts and Carrier	**Offshore** *Offshore ornithology* • Collision with turbines (direct mortality); barrier effects between foraging and breeding sites, or migration effects; temporary and permanent habitat loss/disturbance. • Disturbance to prey (fish) species from important bird feeding areas, or changes to prey availability due to changes to physical processes and habitat as a result of the presence of operational infrastructure. *Benthic subtidal and intertidal ecology* • Temporary and long term habitat loss and colonisation or removal of hard substrates. *Fish and shellfish ecology* • Direct impacts due to underwater noise from piling operations. • Loss of fish and shellfish habitat or disturbance to habitat due to increased suspended sediment concentrations (SSCs) and associated sediment deposition from the installation and decommissioning of foundations and cables. • Loss of or disturbance to fish spawning and nursery habitats in the Irish Sea. *Marine mammals* • Underwater noise particularly from piling and pre-construction clearance of unexploded ordnance (UXO). • Indirect impacts from changes in prey availability as a result of e.g. habitat loss, underwater noise, increased suspended sediment concentrations (SSCs) and associated sediment deposition and other impacts scoped in for fish and shellfish receptors. • The operation and maintenance phase is considered less likely to result in significant effects. *Commercial fisheries* • Direct loss of, or restricted access to, fishing grounds and potential displacement of fishing activity into other areas.

	• Indirect effects from impacts to commercially important fish and shellfish resources. *Shipping and navigation* • Deviations to commercial routes; increased vessel to vessel collision; allision risk with project structures; increased risk of anchor and gear snagging; reduction of under keel clearance; reduction of emergency response capability; and interference with marine navigation, communications and position fixing equipment. *Marine archaeology* • Direct damage to archaeological receptors. • Indirect impacts from sediment disturbance and deposition and alterations of sediment transport regimes. *Other sea users* • Displacement of recreational sailing and motor cruising activities between the UK and Ireland and potential impacts to existing cables between the UK, Ireland (ESAT2, Havingsten 1.1 and Rockabill cables) and the United States (Hibernia Atlantic Seg. A cable). **Onshore** No potential transboundary impacts have been identified in the Scoping Report.
Extent	**Offshore** *Offshore ornithology* • There is potential for transboundary impacts upon ornithological receptors due to the wide foraging and migratory ranges of typical bird species in the Irish Sea. • European sites with birds as a qualifying feature that are within foraging range of the Proposed Development have not been identified at this stage but will be assessed by the Applicant within the HRA Report. The spatial extent of impacts will likely vary depending on the species. *Benthic subtidal and intertidal ecology* • The extent of any predicted impacts is likely to be limited to the footprint of the Proposed Development. • Transboundary impacts on this receptor group are not anticipated in the Scoping Report and are not considered further in this document. *Fish and shellfish ecology* • The extent of impacts occurring, particularly as a result of underwater noise from piling, has not yet been determined and will be assessed further by the Applicant. • However, the Scoping Report acknowledges that Annex II migratory fish species that are listed as features of European sites in other states, or species that are of

	commercial importance for fishing fleets of EEA States, could be affected directly or indirectly. *Marine mammals* • The extent of impacts, particularly from underwater noise from piling and UXO clearance, has not yet been determined and will be assessed further by the Applicant. • However, the Scoping Report acknowledges the potential for transboundary impacts upon marine mammals due to the mobile nature of marine mammal species and the proximity of the Proposed Development to the border of Ireland. *Commercial fisheries* • The extent of impacts has not yet been determined. • However, the Scoping Report acknowledges there is the potential for transboundary impacts upon commercial fisheries due to the highly mobile nature of both commercial fish species and fishing fleets. *Shipping and navigation* • There is potential for transboundary impacts upon shipping routes which transit to/from EEA states, including Ireland. *Marine archaeology* • The extent of any predicted impacts is likely to be limited to the footprint of the Proposed Development. • The Scoping Report concludes there is no pathway for transboundary impacts on this receptor group and they are not considered further in this document. *Other sea users* • The extent of any potential impacts on recreational activities or existing cables is likely to be localised and short term, and the latter be subject to standard cable crossing agreements. • The Scoping Report does not anticipate transboundary impacts on this receptor group and therefore they are not considered further in this document. **Onshore** The Scoping Report concludes that impacts onshore would be confined to a localised area within and around the footprint of the onshore project elements. At this point, given the information available, the Inspectorate considers that significant transboundary effects from onshore activities associated with the Proposed Development are unlikely for the majority of receptor groups. The Scoping Report states that it is not feasible that migratory birds directly associated with European sites in EEA States would be disturbed or suffer from loss of foraging or resting opportunities from the onshore works. The Inspectorate considers that there is insufficient evidence to reach this

	conclusion at this stage. However, potential transboundary impacts from the onshore works are not considered further in this document given the lack of information available at this stage.
Magnitude	The magnitude of impacts (taking into consideration the spatial extent, duration, frequency and reversibility of the impact) have not been evaluated at this stage and will be subject to further assessment.
Probability	**Offshore** *Offshore ornithology* • It is likely that there will be impacts to ornithological receptors during the operation and maintenance phase, particularly as a result of disturbance and displacement and collision risk. *Fish and shellfish ecology* • The probability of impacts occurring during construction is high, particularly as a result of underwater noise from piling. *Marine mammals* • The probability of impacts to marine mammals occurring during construction is high, particularly as a result of underwater noise from piling and UXO clearance. *Commercial fisheries and Shipping and navigation* • The probability of impacts occurring during the operation and maintenance phase is likely to be high, particularly as a result of the presence of the offshore infrastructure associated with the Proposed Development.
Duration	**Offshore** *Offshore ornithology* • Impacts during operation and maintenance phase are likely to be long term. *Fish and shellfish ecology* • The majority of impacts during construction are considered likely to be short term and temporary. • Effects associated with habitat loss are longer term effects. *Marine mammals* • The majority of impacts are associated with the construction phase and are considered likely to be short term and temporary. *Commercial fisheries and Shipping and navigation* • Impacts have the potential to be long term.
Frequency	The frequency of potential transboundary effects has not been fully evaluated at this stage. However, the Scoping Report

	states that impacts on offshore ornithology during operation and maintenance phase are likely to be continuous.
Reversibility	The reversibility of potential transboundary effects has not been fully evaluated at this stage. However, the Scoping Report states the following: **Offshore** *Offshore ornithology* • It is likely that disturbance and displacement and collision risk will be reversible following the decommissioning of the Proposed Development. *Fish and shellfish ecology* • Effects associated with long term habitat loss may be reversible depending on the decommissioning strategy. *Commercial fisheries and Shipping and navigation* • It is likely that following completion of construction some fishing activity may be able to resume, depending upon the final design of the infrastructure, and that any impacts would be reversible after decommissioning. • It is anticipated that all structures above the seabed would be completely removed during decommissioning therefore impacts to shipping and navigation would be reversible.
Cumulative impacts	**Offshore** The Scoping Report states that other proposed major developments in the area will be taken into account within the cumulative effects assessment, in accordance with Planning Inspectorate Advice note Seventeen: Cumulative Effects Assessment Relevant to Nationally Significant Infrastructure Projects. **Onshore** Onshore plans or projects that may be considered in the cumulative effects assessment include: • other energy generation infrastructure; • building/housing developments; • installation or upgrade of roads; • installation or upgrade of cables and pipelines; • coastal protection works; and • National Grid enabling works. The Applicant's cumulative impact assessment has not yet been undertaken so the Applicant has not identified any likely significant transboundary cumulative effects at this stage.
<u>Transboundary screening undertaken by the Inspectorate on behalf of the SoS</u> Under Regulation 32 of The Infrastructure Planning (Environmental Impact Assessment) Regulations 2017 (the 2017 EIA Regulations) and on the basis of the current information available from the Applicant, the Inspectorate is of the view that the Proposed Development **is likely** to have a significant effect on the environment in an EEA State.	

In reaching this view the Inspectorate has applied the precautionary approach (as explained in its Advice Note Twelve: Transboundary Impacts), and taken into account the information currently supplied by the Applicant.

Action:

Transboundary issues notification under Regulation 32 of the 2017 EIA Regulations is required.

States to be notified:

- Republic of Ireland – due to potential impacts on marine mammals, commercial fisheries, shipping and navigation and other sea users (cable operators and recreational users).
- Belgium – due to potential impacts on commercial fisheries.

Date: 07 November 2022

Note: The SoS' duty under Regulation 32 of the 2017 EIA Regulations continues throughout the application process.

Note:

The Inspectorate's screening of transboundary issues is based on the relevant considerations specified in the Annex to its Advice Note Twelve, available on our website at http://infrastructure.planninginspectorate.gov.uk/legislation-and-advice/advice-notes/